***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3054

# Gorchymyn Fferm Wynt ar y Môr Cefnenni Tywod Scarweather 2004

## RHAN II

## GWEITHFEYDD

*Strydoedd*

**Y pŵer i wneud gwaith stryd**

**5.**—(1) At ddibenion y gweithfeydd awdurdodedig, caiff yr ymgymerwr fynd ar gymaint o unrhyw stryd a bennir yng ngholofnau (1) a'r (2) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ag sydd o fewn terfynau'r gwyro, a chaiff—

(a) rhoi cyfarpar yn y stryd honno;

(b) cynnal a chadw cyfarpar yn y stryd honno neu newid safle'r cyfarpar hwnnw;

(c) gwella wyneb Heol Caer Bont rhwng pwyntiau A ac F a ddangosir ar blan y gweithfeydd at ddibenion darparu mynedfa er mwyn adeiladu a chynnal a chadw'r gweithfeydd awdurdodedig; ac

(ch) gwneud unrhyw waith sydd ei angen ar y gweithfeydd awdurdodedig neu sy'n gysylltiedig â hwy, neu sydd ei angen ar unrhyw weithfeydd y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a), (b) ac (c) (yn benodol, gan gynnwys torri neu agor y stryd, neu unrhyw garthffos, draen neu dwnel oddi tani, neu durio neu dyllu o dan y stryd) neu sy'n gysylltiedig â hwy.

(2) Yn yr erthygl hon, mae i "cyfarpar" yr un ystyr ag sydd i "*apparatus*" yn Rhan III o'r Ddeddf Gwaith Stryd.

**Cau strydoedd dros dro**

**6.**—(1) Yn ystod ac at ddibenion gweithredu'r gweithfeydd awdurdodedig, caiff yr ymgymerwr gau dros dro y strydoedd a bennir yng ngholofnau (1) a (2) o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, i'r graddau a bennir drwy gyfeirio at y llythrennau yng ngholofn (3) o'r Atodlen honno, a chaiff am unrhyw gyfnod rhesymol—

(a) gwyro'r traffig o'r stryd; a

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (2), gwahardd pob person rhag pasio ar hyd y stryd.

(2) Ar bob adeg, rhaid i'r ymgymerwr roi mynediad rhesymol i gerddwyr sy'n mynd i neu'n dod o fangreoedd sy'n ffinio â stryd yr effeithir arni gan arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon, os nad oes mynediad i'r mangreoedd hynny fel arall.

(3) Rhaid i'r ymgymerwr beidio ag arfer pwerau'r erthygl hon mewn perthynas ag unrhyw stryd a bennir fel a grybwyllir ym mharagraff (1) heb ymgynghori â'r awdurdod stryd yn gyntaf.

(4) Mae darpariaethau'r Ddeddf Gwaith Stryd a grybwyllir ym mharagraff (5) ynghyd ag unrhyw reoliadau a wneir, neu god ymarfer a gyhoeddir neu a gymeradwyir, o dan y darpariaethau hynny yn gymwys (gyda'r addasiadau angenrheidiol) mewn perthynas â chau, addasu neu wyro stryd gan yr ymgymerwr o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon lle nad oes gwaith stryd yn mynd rhagddo yn y stryd honno fel y byddent yn gymwys pe bai'r cau, yr addasu neu'r gwyro oherwydd gwaith stryd a wneir yn y stryd honno gan yr ymgymerwr.

(5) Dyma ddarpariaethau'r Ddeddf Gwaith Stryd y cyfeirir atynt ym mharagraff (4)—

(a) adran 54 (hysbysiad ymlaen llaw o weithfeydd penodol);

(b) adran 55 (hysbysiad o ddyddiad dechrau'r gweithfeydd);

(c) adran 59 (dyletswydd gyffredinol awdurdod stryd i gydlynu gweithfeydd);

(ch) adran 60 (dyletswydd gyffredinol ymgymerwyr i gydweithredu);

(d) adran 69 (gweithfeydd sy'n debygol o effeithio ar gyfarpar arall yn y stryd);

(dd) adran 76 (atebolrwydd am y gost o reoli'r traffig dros dro);

(e) adran 77 (atebolrwydd am y gost o ddefnyddio llwybr amgen); ac

(f) yr holl ddarpariaethau eraill sy'n gymwys at ddibenion y darpariaethau a grybwyllir uchod.

(6) Bydd unrhyw berson sy'n gweld colled oherwydd atal dros dro hawl tramwy breifat o dan yr erthygl hon â'r hawl i gael iawndal a ddyfernir, os cyfyd anghydfod, o dan Ran I o Ddeddf 1961.